

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	9 MAWRTH 2011
TEITL YR ADRODDIAD:	RECRIWTIO AELODAU AR GYFER Y PWYLLGOR SAFONAU O RAGFYR 2011 YMLAEN A'R SIOE DEITHIOL / CYFLWYNIAD HAWL I HOLI AR Y MATER
ADRODDIAD GAN:	CYFREITHIWR Y SWYDDOG MONITRO
PWRPAS YR ADRODDIAD:	GOFYN I'R PWYLLGOR YSTYRIED Y DOGFENNAU DRAFFT A'R PARATOADAU AR GYFER Y CYFLWYNIAD.

RHAGARWEINIAD

Oherwydd bod cyfnod Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn eu swyddi yn dod i ben ar 17 Rhagfyr eleni, mae'n rhaid cychwyn y broses o ddewis aelodau ar gyfer y Pwyllgor Safonau newydd a bydd eu cyfnod yn y swydd yn cychwyn ar 18 Rhagfyr 2011. Mae angen cydymffurfio gyda gofynion statudol.

Y BROSES

Mae nifer o gamau yn y broses ac efallai mai'r ffordd orau i'w hesbonio yw trwy gyflwyno materion yn nhrefn amser ac amgáu'r dogfennau drafft perthnasol fel a ganlyn:-

1. Penodi Pwyllgor Dethol sy'n cynnwys
 - 3 Chynghorydd Sir - a gymeradwywyd gan y Cyngor
 - 1 Chynghorydd Tref/Cymuned – bwriedir cael cynnig gan “Unllais Cymru”
 - 1 Aelod Annibynnol - a ddewiswyd ar ôl hysbysebu.
2. Bydd angen mynd ag adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Mai i gael y penderfyniadau angenrheidiol. (Mae copi ynghlwm o'r adroddiad i'r Cyngor ar 1/5/2007).
(ATODIAD 1)
3. Llythyr drafft i Gynghorau Tref a Chymuned ar ôl cysylltu gydag “Unllais Cymru” yn gyntaf.
(ATODIAD 2)
4. Hysbyseb ddrafft ar gyfer y Papur Newydd am Berson Annibynnol ar y Panel Dethol.
(ATODIAD 3)

5. Llythyr drafft i'r rheini a ymatebodd i'r hysbyseb **(ATODIAD 4a)** a'r wybodaeth gefndir **(ATODIAD 4b)** a'r ffurflen Gais ddrafft **(ATODIAD 4c)**
6. Llythyr drafft cychwynnol i'r 3 Chynghorydd Sir.
(ATODIAD 5)
7. Hysbyseb ddrafft newydd ar gyfer y Papur Newydd am Aelodau Annibynnol ar gyfer y Pwyllgor Safonau.
(ATODIAD 6)
8. Llythyr drafft i'r rheini a ymatebodd i'r hysbyseb **(ATODIAD 7a)** a "gwybodaeth gefndir ar gyfer ymgeiswyr" **(ATODIAD 7b)** a ffurflen gais ddrafft gan gynnwys 4 atodiad **(ATODIAD 7c)**
9. Llythyr drafft i bob un o'r 5 aelod ar y Panel Dethol "i baratoi ar gyfer y cyfarfod rhestr fer ..."
(ATODIAD 8)
10. Ffurflen Geirda ddrafft i'w chwblhau gan 2 Ganolwr **(ATODIAD 9a)** a llythyr drafft i'r Canolwyr **(ATODIAD 9b)**.
11. Llythyr drafft o wahoddiad i fod yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dilyn y broses ddethol.
(ATODIAD 10)
12. Adroddiad i'r Cyngor Sir ar gasgliadau'r broses ddethol – cafwyd yr adroddiad diwethaf ar 13 Rhagfyr 2007 –
(ATODIAD 11)
13. Llythyr drafft i gadarnhau penderfyniad y Cyngor Sir i wneud y penodiadau i'r Pwyllgor Safonau.
(ATODIAD 12)
14. Hysbyseb yn y Papur Newydd i gadarnhau'r penodiadau i'r Pwyllgor Safonau, sef 5 Aelod Annibynnol ac 1/2 Cynghorydd Tref/Cymuned a 3 Chynghorydd Sir.
(ATODIAD 13)

(Nodwch os gwelwch yn dda y bwriedir gofyn i'r Cyngor Sir gynyddu nifer y cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned o 1 i 2).

ARGYMHELLIAD

1. Ystyried y broses a'r Sioeau Teithiol / Cyflwyniad Hawl i Holi.
2. Cymeradwyo'r dogfennau.